**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Y Pwyllgor Cyllid**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol
Cymru
Dr Kathryn Chamberlain, Cadeirydd Swyddfa
Archwilio Cymru

26 Medi 2023

Annwyl Adrian / Kathryn,

Gwybodaeth Ychwanegol: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

Diolch am ddod i'r sesiwn graffu ar 20 Medi 2023 i drafod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 a Chynllun Blynyddol 2024-25. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth mewn ymateb i'r cwestiynau canlynol na ellid eu gofyn yn ystod y sesiwn dystiolaeth lafar oherwydd cyfyngiadau amser:

> Mae eich Adroddiad Blynyddol yn disgrifio sefydlu grŵp Adolygu Cynaliadwyedd Ariannol. A allwch chi amlinellu cylch gwaith y grŵp hwn a'r hyn y mae wedi'i gyflawni hyd yn hyn?
>
> Roedd eich incwm ffioedd archwilio dros £1 filiwn yn is na'r disgwyl. A allwch chi esbonio pam, a beth yw'r effaith wedi bod ar Archwilio Cymru?
>
> Mae eich cyfrifon yn dangos bod disgwyl colledion credyd o £77,000, rydych hefyd wedi amlinellu colled o £3,500 sy'n gysylltiedig â chynllun aberthu cyflog. A allwch chi esbonio beth mae'r ddwy golled hyn yn ymwneud â nhw a sut maen nhw wedi cael eu datrys?

Byddai'r pwyllgor yn gwerthfawrogi ymateb erbyn dydd Llun 2 Hydref.

Yn gywir,

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.